



NODYN BRIFFIO 1: Sicrhau cyllid hirdymor, cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru

Y cais: Sicrhau cyllid hirdymor, cynaliadwy, aml-flwyddyn ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gofal cymdeithasol wedi'i dan-ariannu ac yn ddibynnol ar gyllid tymor byr. Wrth i boblogaeth Cymru dyfu a heneiddio, mae angen cyllid sefydlog, hirdymor arnom sy'n ein galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth yn y dyfodol y dyfodol.

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cefnogi dros 81,000 o bobl trwy gynlluniau gofal a chymorth ar unrhyw adeg benodol. Mae'n cyflogi dros 80,000 o bobl ac yn cyfrannu mwy na dwy biliwn o bunnoedd i economi Cymru yn flynyddol. Heb ofal cymdeithasol sy'n gweithredu'n effeithiol, mae ysbytai'n llenwi, mae gofalyr di-dâl yn cael eu gwrthio i'r eithaf, mae mwy o deuluoedd yn chwalu ac yn methu, ac ni all pobl a allai fyw'n annibynnol gartref wneud hynny. Canfu ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd yn 2025 fod pob £1 a fuddsoddir mewn gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn adennill £2.78 mewn buddion economaidd-gymdeithasol – ffigur sy'n adlewyrchu nid yn unig gwerth cyflogaeth uniongyrchol y sector ond ei gyfraniad ehangach at gadw pobl yn iach, allan o'r ysbyty ac yn byw'n annibynnol. Nid cost ddynol yn unig yw cost diffyg gweithredu – mae hefyd yn gost ariannol.

Mae diffyg cyllid cynaliadwy, aml-flwyddyn yn ein hatal rhag gallu cynllunio ein gwasanaethau'n effeithiol i ymdopi â heriau poblogaeth sy'n heneiddio ac yn fwyfwy agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth sy'n gofyn am wasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth.

Maint yr her

Mae'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ddifrifol ac yn gwaethygu. Y gorwariant rhagamcanol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2025–26 yw £69 miliwn, yn dilyn gorwariant o £107 miliwn yn 2023–24 a £106 miliwn yn 2024–25. Nid amrywiadau ynysig yw'r rhain. Ar gyfer 2026–27, mae'r pwysau rhagamcanol ar wasanaethau cymdeithasol yn codi i £201 miliwn – 7.2 y cant o wariant referiw net – o fewn bwlch ariannu llywodraeth leol ehangach o £560 miliwn. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 36% o'r cyfanswm hwnnw.

Amcangyfrifir bod llywodraeth leol wedi gwneud tua £3 biliwn mewn toriadau ac arbedion effeithlonrwydd ers 2009–10. Mae gofal cymdeithasol wedi cael ei ddiogelu ond ar draul popeth arall. Mae gwariant ar wasanaethau anstatudol wedi lleihau dros chwarter mewn termau real ers 2009–10. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud bod rhai cynghorau ar “derfyn cynaliadwyedd ariannol” ac ym mis Tachwedd 2025 roedd rhai yn agos at gyhoeddi hysbysiadau adran 114 – y mecanwaith cyfreithiol y mae awdurdod lleol yn ei ddefnyddio i ddatgan na all gadw ei wariant o

NODYN BRIFFIO 1: Sicrhau cyllid hirdymor, cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru

fewn ei gyllideb. Fel mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei ddweud: “Heb gyllid hirdymor, cynaliadwy, ni all cynghorau symud o ymateb i argyfyngau i’r cynllunio rhagweithiol y mae ein trigolion yn ei haeddu.”

Pam mae cynghorau’n gorwario: yr achosion strwythurol

Mae cwestiwn sy’n haeddu ateb uniongyrchol: pam mae cynghorau’n gorwario ar ofal cymdeithasol flwyddyn ar ôl blwyddyn? Nid camreoli na blaenoriaethu gwael mohono. Mae’n strwythurol. Mae nifer o ffactorau yn cynyddu costau i’r graddau na all unrhyw gyngor eu hamsugno drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn unig.

Mae galw demograffig yn tyfu’n gyflymach nag y gall unrhyw arbedion effeithlonrwydd ei wrthbwysu. Cynyddodd nifer y plant sy’n derbyn gofal gan gynghorau Cymru 79 y cant rhwng 2003 a 2023, gyda chynnydd o 28 y cant yn y degawd diwethaf yn unig a phwysau ariannol rhagamcanol o £24 miliwn ar gyfer lleoliadau preswyl i blant yn 2026–27. Erbyn 2038, bydd un o bob pedwar o bobl yng Nghymru dros 65 oed. Disgwylir i amlafiachedd cymhleth – pedwar neu fwy o gyflyrau hirdymor – bron ddyblu erbyn 2035. Nid dewisiadau polisi yw’r rhain: maent yn realiti demograffig na ellir ei ddymuno i fwrdd gan unrhyw lywodraeth yng Nghymru nac ychwaith ei ddatrys drwy arbedion effeithlonrwydd gan unrhyw gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Mae cymhlethdod cynyddol yn golygu bod pob lleoliad, asesiad neu becyn gofal unigol yn costio mwy nag yr oedd ddegawd yn ôl. Mae pobl yn byw’n hirach gyda chyflyrau mwy cymhleth. Ni chynlluniwyd y system gofal cymdeithasol i gario’r lefel o gymhlethdod sy’n gysylltiedig ag iechyd y mae bellach yn ei rheoli’n rheolaidd. Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd ei hun yn nodi bod “degawdau o ddiwygio sydd wedi’i ohirio, costau a galw cynyddol, a gweithlu dan bwysau wedi creu ansefydlogrwydd a fydd ond yn dwysáu heb gamau gweithredu sylweddol”.

Mae ymrwymadau polisi’r llywodraeth wedi ychwanegu cost strwythurol heb gyllid strwythurol. Er enghraifft, mae newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi ychwanegu costau pellach heb eu hariannu. Mae gwahaniaethau cyflog gyda’r GIG yn achosi anawsterau recriwtio a chadw swyddi ar yr un pryd, gan ychwanegu costau asiantaeth a swyddi gwag ar ben hynny. Penderfyniadau polisi cywir oedd y rhain. Nid oeddent yn rhai wedi’u hariannu.

Mae dibyniaeth ar grantiau wedi creu seilwaith ataliol bregus. Adroddodd un awdurdod ddibyniaeth ar oddeutu £50 miliwn mewn amrywiol grantiau ac ni chadarnhaodd y mwyafrif o’r rhain tan fis Mawrth 2026. Mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, grantiau dileu elw a chyllid arall sy’n canolbwyntio ar atal i gyd mewn perygl o ddod i ben heb unrhyw rai eraill yn eu lle. Pan fydd cyllid atal yn dod i ben, mae costau argyfwng statudol yn codi. Nid damcaniaeth yw hon – mae’n batrwm sydd wedi digwydd dro ar ôl tro.

Mae symud costau’r GIG i ofal cymdeithasol yn bwysau pellach nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ddigonol. Mae gofal iechyd parhaus y GIG yn cael ei dan-gymhwysu’n systematig. Mae awdurdodau lleol yn darparu gofal yn rheolaidd i bobl ag anghenion iechyd sylfaenol sy’n gyfrifoldeb cyfreithiol y GIG. Mae’r agenda rhyddhau cleifion o’r ysbyty wedi trosglwyddo cost sylweddol o’r GIG i’r gwasanaethau cymdeithasol heb drosglwyddiad cyllid cyfatebol. Mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn Nodyn Briffio 2 (‘Blaenoriaethu atal, llesiant cymunedol a chysylltiad’).

Yr hyn sydd angen digwydd nawr: y gofynion uniongyrchol

Mae angen tri pheth ar frys, o fewn y tymor Senedd hwn, waeth beth fo’r agenda ddiwygio tymor hwy. Setliad cyllido aml-flwyddyn ar gyfer gofal cymdeithasol yw’r peth cyntaf. Mae cyllidebau blwyddyn yn ei gwneud hi’n amhosibl i gynghorau gynllunio, comisiynu na buddsoddi mewn gwaith atal.

NODYN BRIFFIO 1: Sicrhau cyllid hirdymor, cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru

Byddai setliad tair blynedd o leiaf, wedi'i seilio ar ragolygon galw realistig ac wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth wirioneddol ag ADSS Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn caniatáu i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol symud o reoli argyfyngau i gynllunio strategol.

Newid o grantiau cyfyngedig o ran amser i gyllid craidd Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau ataliol yw'r ail beth. Ni ddylid caniatáu i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a grantiau atal cyfatebol ddod i ben heb arian newydd yn eu lle neu heb rybudd digonol. Lle mae unrhyw gyllid o'r fath i newid, mae ymgysylltu cynnar ac ystyrlon ag arweinwyr llywodraeth leol yn hanfodol. Y ffordd fwyaf cynaliadwy o ariannu atal yw drwy'r Grant Cynnal Refeniw, nid tirwedd dameidiog o grantiau cystadleuol, amser-gyfyngedig sy'n creu ansefydlogrwydd ac yn atal waith i gynllunio'r gweithlu dros yr hirdymor.

Cydnabyddiaeth onest bod penderfyniadau polisi yn aml yn arwain at ganlyniadau ariannu nad ydynt bob amser yn cael eu hystyried yn llawn na'u hadnoddau'n briodol yw'r trydydd peth. Maent yn creu costau meintiol go iawn i awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol eu datrys a'u rheoli. Er y gallai'r polisi fod yr un cywir, gall yr effaith ariannol – weithiau'n anfwriadol – roi awdurdodau mewn sefyllfaoedd anodd iawn.

Y weledigaeth hirdymor: gofal cymdeithasol am ddim ar y pwynt defnydd

Mae ADSS Cymru yn cydnabod uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i ofal cymdeithasol fod am ddim ar y pwynt defnydd. Credwn, er bod y gyrchfan yn gywir, fod angen sgwrs onest am y daith i'w chyrraedd.

Fel y cydnabu grŵp arbenigol Llywodraeth Cymru ei hun, mae gwasanaeth gofal cenedlaethol yn gofyn am sgwrs genedlaethol ynghylch lefel y cyllid sydd ei hangen ac a yw'r cyhoedd yn fodlon talu amdani. Rhaid iddi ymgodymu â chwestiynau ynghylch a oes angen mecanweithiau fel pwerau treth incwm datganoledig. Mae cwestiynau sylweddol yn parhau ynghylch sut y gellid ariannu gwasanaeth gofal cenedlaethol a phryd y gallai hyn ddod yn realiti.

Dyma sylwadau gonest am her gymhleth sydd wedi drysu llywodraethau yng Nghymru a Lloegr ers dros ddeg ar hugain o flynyddoedd. Mae'r system bresennol – fel y cydnabu Llywodraeth Cymru ei hun yn 2009 – yn “gymhleth, yn annheg, ac yn anghynladwy”. Nid y cwestiwn yw a ddylid ei diwygio ond sut ac ar ba gyflymder a chan ddefnyddio pa fecanwaith i'w hariannu. Mae ADSS Cymru yn barod i gyfrannu at Gam 2 o'r sgwrs genedlaethol yng Nghymru.

Mae ADSS Cymru eisoes wedi cael trafodaethau uniongyrchol gyda'r Farwnes Louise Casey a'i thîm comisiwn, gan archwilio diwygiadau hirdymor i system gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Yn ystod ei gyfnod casglu tystiolaeth, croesawyd y cyfle i sicrhau bod safbwyntiau Cymru yn llywio dadl genedlaethol Lloegr. Un pryder penodol a godwyd gennym yw realiti ymarferol dwy system gofal cymdeithasol wahanol iawn sy'n eistedd ar y naill ochr a'r llall i ffin hir: mae unigolion a theuluoedd y mae eu hanghenion gofal, eu rhwydweithiau cymorth a'u bywydau beunyddiol yn rhychwantu'r ffin honno'n wynebu anghysondeb ac annhegwch gwirioneddol; mae gweithwyr gofal yn symud tuag at ba bynnag ochr sy'n cynnig gwell cyflog ac amodau; ac wrth i lwybr diwygio Lloegr ddatblygu, bydd hawliau gwahanol yn creu pwysau cynyddol ar ddarpariaeth Cymru a disgwyliadau'r cyhoedd.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw na all y sgwrs am ddiwygio cyllid hirdymor wthio'r argyfwng cyllido uniongyrchol o'r neilltu. Mae'r gorwariant yn digwydd nawr. Mae pobl yn aros am asesiadau nawr. Mae cynghorau ar ddibyn cynaliadwyedd nawr. Ni all y problemau hyn aros tan 2028 a thu hwnt.

Gweithio gyda'r Senedd newydd

Nid yw ADSS Cymru yn chwilio am sedd amwys wrth fwrdd amhenodol. Rydym am sefydlu perthynas waith strwythuredig, barhaus â Llywodraeth Cymru a chyda Aelodau'r Senedd ar draws pob grŵp, yn ystod y tymor Senedd hwn, gan fod y mater hwn yn gofyn am gonsensws trawsbleidiol. Rydym am sefydlu'r canlynol: ymgysylltiad o'r cychwyn cyntaf, cyn y Rhaglen Lywodraethu a'i phroses gynllunio ariannol, fel bod gwir gost y galw am ofal cymdeithasol wedi'i chynnwys yn y rhagdybiaethau setliad yn hytrach na'i darganfod yng nghanol y flwyddyn fel gorwariant; cyfranogiad yng Ngham 2 o'r sgwrs genedlaethol ar y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol; a mecanwaith ar y cyd – gyda Gweinidogion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, SOLACE, Cymdeithas Trysoryddion Cymru ac ADSS Cymru – i fynd i'r afael â'r ymrwymadau cyflog a chost heb eu hariannu sy'n ysgogi'r diffyg strwythurol.

Mae ADSS Cymru yn dod â gwybodaeth broffesiynol gyfunol cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, cyfrifoldeb statudol dros gomisiynu a darparu gwasanaethau, a hanes cyson o weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i'r gwaith hwn. Nid yw'r problemau a nodir yn y nodyn briffio hwn yn newydd. Ond mae'r tymor Senedd hwn, gyda llywodraeth newydd ac ymrwymiad trawsbleidiol gwirioneddol i ddiwygio gofal cymdeithasol, yn gyfle gwirioneddol i ddechrau mynd i'r afael â nhw mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn barod.

Ffynonellau allweddol

Gwerth Economaidd a Chymdeithasol y Sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru, Gofal Cymdeithasol Cymru (Alma Economics), Chwefror 2025
Cyflwr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Heriau, Pwysau a Thuag at Gynaliadwyedd, CLILC, Hydref 2025

Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, CLILC, ADSS Cymru a SOLACE, Chwefror 2026

Ymchwil y Senedd, Diwygio gofal cymdeithasol i oedolion: a yw Cymru'n barod i wynebu'r pwysau cynyddol ar y system gofal? Mai 2026

Ymchwil y Senedd, System dan straen: cynaliadwyedd llywodraeth leol, Mai 2026

Blaenoriaethau ADSS Cymru (2025–2028), 2025

Maniffesto ADSS Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2026, 2025

Maniffesto CLILC ar gyfer Llywodraeth Cymru, 2026

Llythyr Gweinidogol CLILC ar Gyllid Gwasanaethau Cymdeithasol, 2025

Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol, Archwilio Cymru, 2024

CIPFA ac LGiU, Cyfres Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, 2025–26

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

ADSS Cymru yw Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth:

Uned Fusnes ADSS Cymru, Tŷ Antur, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN